**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (WISTERIA COURT, YSTAD MAESGWYN, WRECSAM) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“Deddf 1990”) i awdurdodi cau’r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau’r briffordd, ac nid awdurdodir ei chau ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â’r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 5 Mehefin 2023 o dan y cyfeirnod WROP/2022/0854 ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Wisteria Court, Ystad Maesgwyn, Wrecsam) 2023 (“y Gorchymyn”) yn peidio â chael effaith os daw’r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â’r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir archwilio copïau o’r Gorchymyn a’r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Yr Adran Economi a Chynllunio, Neuadd y Dref, Wrecsam LL11 1AY, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o’r cyfeiriad isod gan ddyfynnu’r cyfeirnod qA1849705.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau’r Ddeddf; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 13 Medi 2023, wneud cais i’r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

**Gellir cael copi print bras o’r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (WISTERIA COURT, MAESGWYN ESTATE, WREXHAM) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 (“the 1990 Act”) to authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Wrexham County Borough Council on 5 June 2023 with reference WROP/2022/0854 and described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Wisteria Court, Maesgwyn Estate, Wrexham) Order 2023 (“the Order”) will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at Wrexham County Borough Council, Economy & Planning Department, Guildhall, Wrexham LL11 1AY, or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1849705.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 13 September 2023 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government’s website at https://gov.wales/stopping-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**ATODLEN 1**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y darnau o briffordd sydd i'w cau**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n cynnwys troetffordd sy'n rhoi mynediad i Gartref Gofal Wisteria Court, sydd rhwng Ffordd Lelog a Ffordd y Briallu ar Ystad Maesgwyn yn Wrecsam, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 15 metr sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'A' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n cynnwys troetffordd sy'n rhoi mynediad i Gartref Gofal Wisteria Court, sydd rhwng Ffordd Lelog a Ffordd y Briallu ar Ystad Maesgwyn yn Wrecsam, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 51 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'B' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n cynnwys troetffordd sy'n rhoi mynediad i Gartref Gofal Wisteria Court, sydd rhwng Ffordd Lelog a Ffordd y Briallu ar Ystad Maesgwyn yn Wrecsam, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 18 metr sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'C' iddo ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**

**Y Datblygiad**

Bydd y datblygiad yn galluogi'r gwaith o ailfodelu'r cynllun tai gwarchod i ddarparu 26 uned byw'n annibynnol ac estyniad arfaethedig ar y llawr daear yn Wisteria Court, Ystad Maesgwyn, Wrecsam LL11 2AJ.

**SCHEDULE 1**
**(All measurements are approximate)**

**Lengths of highway to be stopped up**

An irregularly shaped length of highway comprising footway providing access to Wisteria Court Care Home, situated between Lilac Way and Primrose Way at Maesgwyn Estate in Wrexham, having a total area of 15 square metres, shown by zebra hatching and given the reference 'A' on the deposited plan.

An irregularly shaped length of highway comprising footway providing access to Wisteria Court Care Home, situated between Lilac Way and Primrose Way at Maesgwyn Estate in Wrexham, having a total area of 51 square metres, shown by zebra hatching and given the reference 'B' on the deposited plan.

An irregularly shaped length of highway comprising footway providing access to Wisteria Court Care Home, situated between Lilac Way and Primrose Way at Maesgwyn Estate in Wrexham, having a total area of 18 square metres, shown by zebra hatching and given the reference 'C' on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**

**The Development**

The development will enable the remodelling of sheltered housing scheme to provide 26 independent living units and proposed ground floor extension at Wisteria Court, Maesgwyn Estate, Wrexham LL11 2AJ.